

## **Polisi Iaith Gymraeg**

### **1. Cyflwyniad**

Mae gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd (UMPC) weledigaeth o weithio â phob myfyriwr Caerdydd i wella'u profiadau prifysgol. Fel sefydliad annibynnol o'r brifysgol sy'n cael ei arwain gan fyfyrwyr, mae UMPC yn cynrychioli myfyrwyr ac yn darparu ystod eang a chynhwysol o weithgareddau a gwasanaethau sy'n cyfoethogi bywydau myfyrwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cyngor, hyfforddiant, datblygu sgiliau, cyfleoedd gwirfoddoli, cyflogadwyedd a gwasanaethau eraill sy'n hyrwyddo cynhwysiad, cyfeillgarwch a datblygiad personol. Mae UMPC yn cefnogi dros 200 o gymdeithasau myfyrwyr a 60 clwb chwaraeon gyda dros 10,000 o aelodau. UMPC yw llais cydnabyddedig myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, yn ymuno â myfyrwyr i ymgychu dros faterion sydd yn bwysig iddynt.

Mae UMPC wedi'i leoli ar Blas y Parc ac ar gampws Parc y Mynydd Bychan, yn cyflogi dros 100 aelod o staff parhaol a 300 o staff myfyrwyr. Mae cwmni is-masnachu UMPC, Gwasanaethau Undeb Caerdydd Cyf, yn rheoli cyfleuster pwrpasol yng nghanol Caerdydd ac yn gweithredu caffis, siopau, bariau a digwyddiadau sy'n helpu i ariannu gweithgareddau elusennol UMPC. Llwyddodd y sefydliad dderbyn achrediad 'Rhagorol' o dan y marc safon Safon Undebau Myfyrwyr Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, yn ogystal â llwyddo Buddsoddwyr mewn Amrywiaeth Gradd 2, a'r Gwobr 'Aur' drwy y Cynllun Achrediad Best Bar None. Mae UMPC yn anelu at gael dylanwad positif ar y gymuned ehangach yng Nghaerdydd ac yn cael ei ystyried yn gyson fel yr Undeb Myfyrwyr gorau yng Nghymru ac yn y pedwar uchaf<sup>1</sup> yn y DU am foddhad myfyrwyr.

Mae swyddfa gofrestredig yr Undeb yng Nghymru.

#### **1.1 Prif Amcanion a Gwerthoedd**

Yn cydweddu gyda adolygiad o Femorandwm ac Erthyglau y Gymdeithas<sup>2</sup>:

- "A. Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd (yr "Undeb") yn undeb y myfyrwyr o fewn ystyr y Ddeddf Addysg 1994. Mae'r Undeb yn llwyr ymroddedig i fuddiannau academiaidd a lles ei aelodaeth o fyfyrwyr.
- B. Bydd yr Undeb yn ceisio ar bob achlysur i:
- i) sicrhau y cydnabyddir amrywiaeth ei aelodaeth myfyrwyr a bod mynediad cyfartal ar gael i holl Aelodau Myfyrwyr beth bynnag fo eu tarddiad neu gyfeiriadedd;
  - (ii) dilyn ei nodau ac amcanion annibynnol oddi wrth unrhyw blaid wleidyddol na grŵp crefyddol; a
  - (iii) mynd ar drywydd cyfleoedd cyfartal gan gymryd camau gweithredol cadarnhaol o fewn y gyfraith i

<sup>1</sup> Times Higher Education Student Experience Survey, Which? University Guide and Whatuni Student Choice Awards 2018.

<sup>2</sup> <https://www.cardiffstudents.com/pageassets/about-cusu/governance/mem-arts/CUSU-Memorandum-and-Articles-of-Association.pdf> (p.3)



hwyluso cyfranogiad grwpiau sy'n cael eu gwahaniaethu yn erbyn gan gymdeithas."

Mewn termau ymarferol, mae'r Undeb yn ymarfer ei swyddogaethau drwy ei Strategaeth 3 Mlynedd ac mae ei Gerdyn Sgorio Cytbwys, a gaiff ei osod gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn flynyddol.

## Strategaeth 2018-2021<sup>3</sup>

### Ein Gweledigaeth

Gweithio gyda phob myfyriwr yng Nghaerdydd i wella eu profiad yn y brifysgol.

### Ein Gwerthoedd

- Arweinyddiaeth myfyrrwyr
- Cynhwysiant
- Partneriaeth
- Amrywiaeth

### Ein Slogan

Calon profiad myfyrrwyr Caerdydd

### Ein Pwrpas

Ynghyd â'r Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithas<sup>4</sup>, ein diben yw cyfoethogi addysg myfyrrwyr Prifysgol Caerdydd er budd y cyhoedd drwy:

- Hyrwyddo buddiannau a lles myfyrrwyr Prifysgol Caerdydd yn ystod eu hastudiaeth a chynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrrwyr.
- Bod yn sianel gynrychiolaeth gydnabyddedig rhwng myfyrrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrff allanol eraill; a
- Darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden yn ogystal â fforymau ar gyfer trafodaeth er mwyn datblygiad personol ein myfyrrwyr.

### Ein Themâu

- Wrth galon bywyd myfyrrwyr: Cynnal ein lle wrth galon bywyd myfyrrwyr a pharatoi tuag at Canolfan Bywyd y Myfyrrwyr.
- Cartref Llais y Myfyrrwyr: Fe fyddwn yn datblygu ein rôl fel cartref llais y myfyrrwyr, meithrin ein perthnasau ar draws y Brifysgol ac ehangu yn cyfathrebu gydag ein rhanddeiliaid.
- Cyfleusterau a gwasanaethau sy'n arwain y sector: Fe fyddwn yn creu ac yn cefnogi datblygiad gweithgareddau sy'n arwain y sector a gwasanaethau sy'n helpu i fyfyrrwyr lwyddo.
- Ymgysylltu gyda'n cymunedau llai cysylltiedig: Fe fyddwn yn ymgysylltu gyda Parc y Mynydd Bychan a chymdeithasau myfyrrwyr gyda llai o ymgysylltiad fel bod yr Undeb yn golygu rhywbeth i bob myfyriwr Caerdydd.

---

<sup>3</sup> <http://www.cardiffstudents.com/about-cusu/plans/>

<sup>4</sup> <https://www.cardiffstudents.com/pageassets/about-cusu/governance/mem-arts/CUSU-Memorandum-and-Articles-of-Association.pdf> (p.4)



## Ein Galluogwyr

- Pobl
- Cyllid
- Cyfleusterau
- Technoleg Ddigidol

Fel rhan o ymrwymiad yr Undeb yn darparu'r Strategaeth, mae cyfeiriad arbennig tuag at yr Iaith Gymraeg ac i Gymru:

- Mae datblygu a darparu cynlluniau ymgysylltu ar gyfer myfyrwyr Park y Mynydd Bychan, siaradwyr Cymraeg, myfyrwyr rhyngwladol a'r rheiny sy'n astudio yn Sgwâr Canolog ac yng Nghasnewydd.

## 1.2 Strwythur Sefydliadol

Mae'r Undeb wedi'i rannu i bedwar cyfarwyddiaeth a 15 adran, fel y gwelir yn y diagram a ddarperir (Atodiad C). Mae strwythur llywodraethol Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cael ei ddangos yn Atodiad B.

Mae'r Adran Farchnata a Chyfathrebu yn wasanaeth canolog ac yn adrodd yn ôl i'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu, sydd yn adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr.

### 1.2.2 Diffiniadau:

Mae Swyddog Y Gymraeg yn swydd myfyriwr sy'n ffurfio rhan o'r tîm Swyddogion Ymgrych. Mae'r rôl di-dâl gwirfoddol hwn yn cael ei ethol yn flynyddol yn Etholiadau Myfyrwyr Caerdydd, ac yn cael ei ymgymryd â gan fyfyriwr gyfochr a'u hastudiaethau.

Mae Cydlynnydd y Gymraeg yn rôl staff gyrfa llawn amser yn UMPC. Mae'r rôl yn adrodd yn ôl i'r Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu o fewn y tîm Marchnata a Chyfathrebu.

Mae Swyddogion Etholedig yn cyfeirio at saith aelod o dîm myfyrwyr sabothol llawn amser sy'n cael eu hethol yn flynyddol yn Etholiadau Myfyrwyr Caerdydd.

Mae Grŵp Arweinyddiaeth UMPC yn cynnwys tîm Swyddogion Etholedig a'r Tîm Rheolwyr Strategol.

Mae'r Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg yn cynnwys staff Undeb y Myfyrwyr, staff y Brifysgol, cynrychiolwyr myfyrwyr ac ymddiriedolwr o UMPC. Bydd y Grŵp Llywio yn cael ei weinyddu yn unol â'i gylch gorchwyl.

## 1.3 Perthynas gyda Prifysgol Caerdydd

Mae gan Undeb y Myfyrwyr y pŵer i reoli ei faterion a chronfeydd ei hun ac yn yr un modd â'r Brifysgol, mae ganddo statws o elusen addysgol. Er bod yr Undeb, felly, yn endid annibynnol oddi wrth Prifysgol Caerdydd, mae'n llawn cydnabod ei gyfrifoldeb i'r iaith Gymraeg fel iaith swyddogol y Brifysgol a Chymru.



Mae Ordinhad 13<sup>5</sup> Prifysgol Caerdydd yn gosod y berthynas rhwng y Brifysgol a'r Undeb:

#### “1. Teitl a Thestun

1.1 Bydd yna Undeb Myfyrwyr y Brifysgol yn cael ei alw'n “Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd” a'r teitl wedi'i dalfyrru bydd “Undeb y Myfyrwyr” (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “yr Undeb”). Amcanion yr Undeb yw hyrwyddo dyrchafiad addysg y myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd er budd y cyhoedd drwy:

- .1 Hyrwyddo buddiannau a lles Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ystod eu hastudiaeth a chynrychioli, cefnogi a chynghori Myfyrwyr;
- .2 bod yn sianel cynrychioladol cydnabyddedig rhwng Myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrff allanol eraill; a
- .3 darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden yn ogystal â fforymau er mwyn trafod ar gyfer datblygiad personol ein Myfyrwyr.

#### 2. Diffiniadau Termiau

- 2.4 Bydd 'Hunan-ddiffinio' yn golygu unrhyw un sy'n gallu categoreiddio eu hunain fel aelodau o grŵp penodol.
- 2.5 Bydd 'Dwyeithog' yn golygu Saesneg a Chymraeg.

#### 3. Datganiad Cenhadaeth

3.1 Mae'r Undeb yn anelu at ehangu profiad y myfyrwyr drwy ddarparu cynrychiolaeth, gwasanaethau lles, cyfleusterau hamdden a chyfleoedd ar gyfer datblygiad myfyrwyr o fewn yr Undeb, y Brifysgol a'r gymuned leol. Mae'r Undeb yn bodoli i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac atebol i bob myfyrwr yn y Brifysgol. Yn benodol:

- .1 I ddarparu sianel cydnabyddedig a chynrychioladol o gyfathrebu rhwng aelodaeth yr Undeb, Y Brifysgol a chyrrff eraill;
- .2 I gyrraedd anghenion deallusol, lles, cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon ac adloniant a ehangu y gweithgareddau i'w holl aelodau.
- .3 I fuddsoddi mewn datblygiad a hyfforddiant er mwyn ehangu'r gwasanaethau a ddarperir;
- .4 I gyfrannu tuag at bywyd corfforaethol cyffredinol y Brifysgol.
- .5 I symud tuag at Undeb mwy moesegol ac eco gyfeillgar;
- .6 I gyfrannu at eu cyfrifoldebau 'Cymru gyfan'.

---

<sup>5</sup> [https://www.cardiff.ac.uk/\\_\\_data/assets/pdf\\_file/0019/11818/All-Ordinances-@-December-2017-v2.pdf](https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0019/11818/All-Ordinances-@-December-2017-v2.pdf)



Fel llais cydnabyddedig myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, mae'r Undeb yn cydnabod ei rôl hanfodol yn ffurfio profiad cyflawn y myfyrwyr. I'r perwyl hwn, drwyddo draw yn y Polisi hwn, mae'r Undeb yn ailddatgan ei ymrwymiad i gynrychioli ac i ddarparu ar gyfer myfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r gofynion i drin yr iaith Gymraeg ar sail cydraddoldeb gyda'r iaith Saesneg hefyd yn cael ei gyfeirio ato fel Siarter y Myfyrwyr<sup>6</sup> a'r Cytundeb Partneriaeth a gytunwyd arno rhwng yr Undeb a Phrifysgol Caerdydd, yn ogystal a bod yn rhan allweddol o amcanion a chyfeiriad strategol y Brifysgol.

## 1.4 Natur ieithyddol Aelodaeth yr Undeb

Mae 31,597<sup>7</sup> o fyfyrwyr wedi cofrestru ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae yna 1,691 o fyfyrwyr sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl a 1,593 nad ydynt yn rhugl.<sup>8</sup>

## 2. Datganiad Ymrwymiad

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd (cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "yr Undeb") yn cydnabod y Gymraeg a Saesneg fel ieithoedd swyddogol ar gyfer ei waith, ac yn anelu i gynnal amgylchedd sydd yn gyfartal i siaradwyr o'r ddwy iaith. Mae hefyd yn chwilio i hyrwyddo defnydd a ymwbyddiaeth yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg, ac yn cyd-fynd a'i flaenoriaeth yn ei waith.

### 2.1 Y Cyd-destun Deddfwriaethol

2.1.1 Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru; yn sefydlu'r egwyddor na ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ac yn sefydlu rhyddid i'r rheini sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd. Mae'r Mesur hefyd yn sefydlu Swyddfa y Comisiynydd y Gymraeg.

2.1.2 Mae'r Undeb yn cydnabod ac yn parchu statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru, o ganlyniad i Fesur 2011. Er nad yw'r Undeb yn cael ei enwi'n benodol yn y Mesur, mae'n cydnabod y gall, o dan Atodlen 5 (5) fel sefydliad sy'n derbyn dros £400,000 o arian cyhoeddus bob blwyddyn (drwy Prifysgol Caerdydd) fod yn gymwys i fod yn ddarostyngedig i safonau Comisiynydd y Gymraeg yn y dyfodol.

2.1.3 Mae'r Undeb yn ymrwmo i fod yn gyfranogwr mewn unrhyw ymchwiliad gan y Comisiynydd ynghylch ei waith.

2.1.4 Mae'r Undeb hefyd yn cydnabod ac yn deall y bydd disgwyl i'r Brifysgol gydymffurfio â safonau statudol yr iaith Gymraeg yn y dyfodol agos ac mae hyn yn codi disgwiliadau'n sylweddol o ran dwyieithrwydd. Bydd yr Undeb yn cymryd sylw arbennig o hyn wrth weithio mewn partneriaeth gyda'r Brifysgol.

---

<sup>6</sup> <http://www.cardiff.ac.uk/for/current/student-charter/resources/Student-Charter.pdf>

<sup>7</sup> Gwelwyd ffigyrau Tachwedd 2015 - <http://www.cardiff.ac.uk/about/facts-and-figures>

<sup>8</sup> Darparwyd y ffigyrau gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, 14<sup>eg</sup> Mehefin 2018



### 3. Perchnogaeth ar y Polisi hwn

3.1 Mae'r polisi hwn yn rhan o gylch gwaith Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg a chaiff ei adolygu yn flynyddol. Bydd y Polisi a'i weithrediad yn cael ei oruchwylio gan y Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu a Chydlynedd yr Iaith Gymraeg. Bydd penaeithiaid adrannau'r Undeb yn gyfrifol am weithredu gofynion y polisi o fewn eu maes gwasanaeth, a sicrhau bod eu staff yn cydymffurfio â'r polisi.

3.2 Cafwyd cefnogaeth wleidyddol gan aelodau myfyrwyr i'r Undeb ddatblygu Polisi Iaith Gymraeg (CCB 2013)<sup>9</sup>. Rhoddwyd mandad gwleidyddol pellach drwy benderfyniad unfrydol yn Senedd y Myfyrwyr i fabwysiadu Siarter Iaith Gymraeg UCM Cymru (Tachwedd 2014).

3.3 Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, corff llywodraethu'r Undeb. Ymgynghorwyd â myfyrwyr yn natblygiad y Polisi, yn ogystal ag arweiniad gan Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg.

### 4. Cymhwysu'r Polisi

4.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob agwedd o waith UMPC ac yn cwmpasu popeth o fewn eiddo a reolir gan UMPC ac unrhyw ddiwyddiad a drefnir, rhedir neu a gynhelir gan UMPC.

4.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i aelodaeth, aelodau staff, a rhanddeiliaid yr Undeb a aelodau o'r cyhoedd sy'n dod i gysylltiad gyda'r Undeb drwy ei weithgareddau amrywiol.

4.3 Mae'r polisi yn ymwneud â'r Undeb a'i is-gwmnïau.

4.4 Bydd sefyllfaoedd argyfyngus sy'n effeithio diogelwch yr aelodaeth myfyrwyr yn cael ei eithrio o'r polisi hwn os nad yw gohebiaeth ddwyieithog yn bosibl.

### 5. Egwyddorion Craidd

5.1 Er mwyn sefydlu a chynnal amgylchedd sy'n gyfartal i siaradwyr Cymraeg a Saesneg a lle gall unigolion ymgysylltu â'r Undeb yn llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, neu gyfuniad o'r ddwy iaith - yn seiliedig ar ddewis personol - mae'r Undeb wedi nodi saith Egwyddor Craidd.

5.2 Wrth gydnabod ymhellach fod y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol yn ei waith, mae'r Undeb yn ymrwymo ei hun i'r Egwyddorion craidd canlynol sy'n sail i'r polisi hwn ac wedi ffurfio ei ddatblygiad. Dylid dehongli gofynion y Polisi hwn yn unol â'r Egwyddorion allweddol cyffredinol hyn:

5.2.1 **Ansawdd:** Lle bynnag y darperir gwasanaeth yn y Gymraeg, fe fydd yn gyfartal i'r rhai a ddarperir yn Saesneg. Bydd cyfathrebu iaith Gymraeg yn gyfartal â chyfathrebu Saesneg o ran cywirdeb ysgrifenedig, naws a chysondeb. Ni fydd hyn yn berthnasol i ddogfennau cyfreithiol y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'w cael eu cyflwyno'n Saesneg.

5.2.2 **Gwelededd:** Bydd y ddwy iaith yn gydradd o ran gwelededd, lle bynnag y maent yn

<sup>9</sup> <https://www.cardiffstudents.com/your-voice/policy/>



ydddangos.

**5.2.3 Hygyrchedd:** Bydd yr Undeb yn rhagweithiol yn ei ddull o ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg. Bydd cyfrifoldeb ar y sefydliad i gynnig y dewis i allu cyfathrebu'n Gymraeg yn hytrach na'r unigolion yn gorfod gofyn amdano.

**5.2.4 Cydamserol:** Bydd yr Undeb yn cyhoeddi cyfathrebu yn y ddwy iaith ar yr un pryd. (edrychwch ar 4.4 ynghylch rhybuddion brys). Bydd yr Undeb yn delio ag ac yn ymateb (os bydd angen ymateb) i ymholiadau neu gyfathrebu yn y Gymraeg o fewn yr un ffrâm amser a fyddai'r rhai yn derbyn yn y Saesneg. Os oes angen cyfieithu, bydd neges ddaliad parod yn cael ei ddanfôn yn Gymraeg. Bydd staff yn derbyn templedi i alluogi hyn.

**5.2.5 Dilysrwydd:** Bydd dilysrwydd cyfartal i unrhyw beth a wnaed, dweud neu sy'n cael ei ysgrifennu yn Gymraeg neu yn Saesneg lle bo'n bosib.

**5.2.6 Cydraddoldeb:** Bydd dewis iaith unigolion yn cael ei barchu, boed hynny yn ymgysylltu gyda'r Undeb yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae'r Undeb yn ymfalchio ei fod yn gorff cynhwysol ac yn ystyried cydraddoldeb iaith fel rhan annatod o'i ymrwymiad i ryddhad a chydraddoldeb. Ni fydd yr Undeb yn goddef gwahaniaethu a chasineb ar sail iaith.

**5.2.7 Hyrwyddo:** Bydd yr Undeb yn edrych am gyfleoedd i hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg yn ei holl waith.

## 6. Monitro ac Adolygu

**6.1** Bydd cydymffurfiaeth â'r polisi yn cael ei fonitro'n chwarterol gan yr Adran Farchnata a Chyfathrebu. Bydd diffyg cydymffurfiaeth yn cael ei adrodd at benaethiaid adran a fydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi o fewn eu meysydd gwasanaeth. Darperir crynodeb o weithgaredd y monitro hwn i'r Grŵp Llywio'r iaith Gymraeg.

Caiff y polisi hwn ei adolygu'n flynyddol gan yr Adran Farchnata a Chyfathrebu ar y cyd â Llywydd Undeb Myfyrwyr a Swyddog y Gymraeg. Caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Grŵp Llywio'r iaith Gymraeg yn rhoi manylion ar unrhyw ddiwygiadau a gwelliannau awgrymedig.

Dyddiad adolygu nesaf: Mehefin 2019.

**6.3** Bydd newidiadau i'r polisi yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd o Ymddiriedolwyr.

## 7. Darparu Gwasanaethau

### 7.1 Derbyng ymwelwyr

**7.1.1** Mae croeso i ymwelwyr yr Undeb (aelodau myfyrwyr neu arall) i siarad Cymraeg wrth y dderbynfa.

**7.1.2** Bydd yr Undeb yn arddangos arwydd (yn Gymraeg) yn ardal y dderbynfa yn nodi bod croeso i bobl siarad Cymraeg yn y dderbynfa.

**7.1.3** Pan na fydd gwasanaeth wyneb yn wyneb ar gael yn Gymraeg yn y dderbynfa, bydd yr Undeb yn sicrhau fod



gwasanaeth Cymraeg ar gael i ymwelwyr ar y ffôn yn y dderbynfa neu fod aelod o staff ar gael i fynd i'r dderbynfa pan fydd ymwelydd yn cyrraedd ac yn gwneud cais am wasanaeth derbynfa yn Gymraeg.

## 7.2 Galwadau ffôn

7.2.1 Mae'r Undeb yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.

7.2.2 Bydd galwadau ffôn a dderbyniwyd i brif switsfwrdd yr Undeb yn cael eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog syml. Bydd y cyfarchiad hwn yn cael ei ddarparu gan Gydlynnydd y Gymraeg. Os na all y person sy'n ateb barhau â'r sgwrs yn y Gymraeg, bydd y rheini sy'n dymuno i gyfathrebu'n Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i siaradwr Cymraeg priodol neu drefnu galwad yn ôl ar amser cyfleus.

7.2.3 Bydd rhestr o'r holl staff gyda gallu yn y Gymraeg ar gael i holl aelodau o staff drwy restr canolog.

7.2.4 Bydd staff Gyrfar Undeb a Swyddogion Etholedig yn defnyddio cyfarchiad dwyieithog syml i ateb y ffôn.

7.2.5 Bydd Staff a Swyddogion yn sicrhau bod eu negeseuon peiriant ateb yn ddwyieithog. Bydd UMPC yn gwneud trefniadau i ateb negeseuon sy'n cael eu gadel yn yr un iaith â'r neges wreiddiol.

## 7.3 Gohebiaeth (electroneg ac argraffu)

7.3.1 Mae'r Undeb yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg.

7.3.2 Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg.

7.3.3 E-bost: Dylai Staff Gyrfar ddechrau e-byst gyda chyfarchiad Cymraeg neu ddwyieithog a gorffen y cyfathrebiadau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd testun yn cael ei ddarparu i'r holl staff er mwyn hwyluso hyn.

7.3.4 Bydd e-byst sy'n nodi fod rhywun allan o'r swyddfa Staff a Swyddogion yn ddwyieithog. Bydd templed yn cael ei ddarparu gan Gydlynnydd y Gymraeg i hwyluso hyn.

7.3.5 Bydd llofnod E-byst Staff a Swyddogion yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn ymddangos gydag amlygrwydd cyfartal yn cynnwys ffontiau a lliwiau a ddefnyddir.

7.3.6 Bydd UMPC yn casglu dewis iaith myfyrwyr o ddata'r Brifysgol a defnyddio hyn i sicrhau bod myfyrwyr sydd wedi dewis Cymraeg fel eu hiaith gyntaf ar gyfer cyfathrebiad yn derbyn cylchlythyrau e-bost Cymraeg gan yr Undeb. Bydd myfyrwyr eraill i gyd yn derbyn e-bost dwyieithog.

7.3.7 Ym mhob gohebiaeth swyddogol arall, bydd yr Undeb bob amser yn dechrau'r ohebiaeth yn ddwyieithog.

7.3.8 Bydd negeseuon testun sy'n cael eu danfon gan UMPC sy'n darparu diweddariadau sefydliadol a gwybodaeth am ymgyrchoedd yn parhau dewis iaith y myfyriwr.





## 7.4 Ffurflenni

Bydd pob ffurflen at ddefnydd y cyhoedd ar gael mewn fformat dwyieithog.

## 7.5 Arolygon

Bydd arolygon sy'n cael eu cynhyrchu gan UMPC ar gael mewn fformat dwyieithog.

## 7.6 Offer Swyddfa

Bydd offer swyddfa a deunyddiau megis fel penynnau ffacs, cardiau busnes a slipiau cyfarch yn ddwyieithog, gan drin y ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd. Bydd holl stociau presennol o ddeunydd ysgrifennu yn cael eu hadolygu ar gyfer cydymffurfio a chael eu disodli wrth i'r stoc deneuo. Bydd offer swyddfa i gyd yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog.

## 7.7 Deunydd Hysbysebu a Marchnata

Bydd deunyddiau hysbysebu a marchnata UMPC yn cael eu cyhoeddi mewn fformat ddwyieithog neu'n cael eu cyhoeddi ar yr un pryd yn y ddwy iaith. Mae hyn yn cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i; posteri, taflenni, llyfrynau, hysbysebu digidol, baneri a chyfryngau print.

## 7.8 Gwefan ac Apiau

7.8.1 Bydd bob stori newyddion ar [cardiffstudents.com](http://cardiffstudents.com) yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog.

7.8.2 Bydd UMPC yn datblygu gwefan dwyieithog (gweler Atodiad – D. Cynllun Gweithredu Graddol).

7.8.3 Bydd gallu'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth allweddol yn natblygiad neu wrth brynu apiau, meddalwedd a thechnoleg newydd, ond dylai fod yn gytbwys â mantais cystadleuol. Bydd y penderfyniad pennaf yn eistedd gyda Grŵp Arweinyddiaeth UMPC.

## 7.9 Cyfryngau Cymdeithasol

7.9.1 Bydd cyfathrebiad iaith Gymraeg yn cael ei cael ei bostio drwy'r cyfrifon @UndebMyfyrwyr penodol ar Facebook a Trydar ac yn dilyn yr un themâu sy'n ymddangos ar gyfrifon iaith Saesneg, yn ogystal â datblygu cynnwys wedi ei deilwra i siaradwyr Cymraeg. Bydd bob sianel cyfrwng cymdeithasol arall yn cyfuno cyfathrebu Cymraeg a Saesneg.

7.9.2 Pan fydd yr Undeb yn creu digwyddiadau ar Facebook, bydd y testun a'r lluniau clawr yn ddwyieithog.

7.9.3 Bydd bob cofiant cyfrwng cymdeithasol yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog.

7.9.4 Bydd UMPC yn cefnogi y tîm o Swyddogion Etholedig wrth ymgysylltu yn y ddwy iaith.

## 7.10 Fideos

7.10.1 Pan fo'n bosibl, bydd fideos yn defnyddio strwythur adroddiant fel y bydd yn haws i greu fideos dwyieithog.



7.10.2 Bydd fideos Cymraeg a Saesneg ar wahân yn cael eu creu pan fo'n berthnasol.

7.10.3 Bydd cynnwys pwrpasol yn cael ei ddatblygu at gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg lle bo'n berthnasol.

## 7.11 Cyhoeddiadau Llafar

Bydd cyhoeddiadau a recordir yn yr adeilad yn cael eu gwneud yn ddwyieithog. Bydd cyhoeddiadau argyfyngus sy'n effeithio diogelwch yr aelodaeth myfyrwyr yn cael ei eithrio o'r polisi hwn os nad yw gohebiaeth ddwyieithog yn bosibl.

## 7.12 Cyhoeddiadau Corfforaethol Cyhoeddus

7.12.1 Bob cyhoeddiad a dogfennau cysylltiedig sydd yn y gyhoeddus yn ddwyieithog.

7.12.2 Bydd hyn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i; y cynllun strategol sefydliadau; strategaethau corfforaethol eraill; Llyfr Polisi, Cyfansoddiad yr UMPC, Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, a'r Adroddiad Effaith Blynyddol.

## 7.13 Strategaeth a Pholisi

Bydd cynnydd a chynnwys y polisi hwn yn cael ei ystyried wrth ddatblygu cynlluniau strategol a pholisïau eraill.

## 8. Recriwtio a Staffio

8.1 Pan fydd swyddi'n dod yn wag neu wrth greu swyddi newydd, bydd gofynion ieithyddol y swyddi o'r fath yn cael eu asesu a nodir fod yr iaith Gymraeg naill ai yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol' yn ddibynnol ar natur y rôl.

8.2 Bydd hysbysebion recriwtio staff gyrfa'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog lle bo'n berthnasol. Wrth gyhoeddi drwy gyhoeddiadau Cymraeg, bydd hysbysebion yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu'n Gymraeg.

8.3 Bydd sgiliau iaith staff newydd yn cael eu nodi i sicrhau bod y sefydliad yn cynnal rhestr gynhwysfawr o'r holl siaradwyr y Gymraeg. Darparir bathodyn "Cymraeg" yn ystod y cyfnod cyflwyno i staff er mwyn nodi fod ganddynt sgiliau Cymraeg. Darperir fersiwn electroneg o'r bathodyn a bydd staff yn cael eu hannog i'w ddefnyddio ar eu llofnod e-bost.

8.4 Bydd holl staff gyrfa newydd a Swyddogion Etholedig yn cael sesiwn hyfforddiant ar yr iaith a diwylliant Cymraeg, yn cael ei ddarparu gan Gydlynnydd y Gymraeg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r polisi hwn a gwel dealltwriaeth o'r bwriad y tu ôl ei ddatblygu.

8.5 Cyhoeddir hysbysebion recriwtio ar gyfer staff myfyrwyr a gyflogir gan UMPC yn ddwyieithog er mwyn annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg.

8.6 Gwneir staff gyrfa UMPC yn ymwybodol o gyrsiau iaith Gymraeg am ddim a ddarperir gan y Brifysgol.

8.7 Bydd grŵp iaith Gymraeg staff yn cael ei gynnal i staff gyrfa. Bydd y grŵp hwn yn fforwm ar gyfer trafodaeth, yn darparu adborth i Gydlynnydd y Gymraeg, a fydd hefyd yn cadeirio'r grŵp.



## 9. Hunaniaeth Gorfforaethol a Dylunio

9.1 Bydd testun Cymraeg yr un maint â thestun Saesneg, lle bynnag y mae'n ymddangos.

9.2 Bydd testun Cymraeg yr un peth neu'r un mor amlwg â'r testun Saesneg ar ran lliwiau, lle bynnag y mae'n ymddangos.

9.3 Bydd yr Undeb yn dilyn yn ôl troed polisi y Brifysgol ynghylch lleoliad testun. Mae Cynllun Iaith Gymraeg Presennol y Brifysgol yn datgan y dylai maint, cydraddoldeb, eglurdeb ac amlygrwydd y testun ar arwyddion barchu'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng y ddwy iaith. Mae hyn y cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i, bosteri, dogfennau, llofnodion e-byst, cyfryngau cymdeithasol, cyflwyniadau pynt pŵer ac arwyddion.

9.4 Pan fydd yr Undeb yn ailystyried ei logo, fe fydd yn sicrhau bod unrhyw ddyluniadau logo newydd yn cydymffurfio ag ac yn parchu'r cymalau uchod (9.1 – 9.3)

## 10. Brandiau neu is-frandiau UMPC

10.1 Bydd holl frandiau newydd o eiddo'r Undeb yn cael eu creu mewn fformat dwyieithog.

10.2 Bydd ystafelloedd a lleoliadau yn UMPC yn cael enwau Cymraeg neu dwyieithog wrth ailenwi ystafelloedd.

10.3 Bydd allfeydd masnachol sy'n eiddo'n llwyr gan UMPC yn sicrhau fod daliadau stoc nwyddau Cymraeg a nwyddau Saesneg yn deg.

## 11. Clybiau, Cymdeithasau, Gwasanaethau Dan Arweiniad Myfyrwyr, Cymdeithasiadau a Chyfryngau Myfyrwyr Caerdydd

11.1 Caiff clybiau a chymdeithasau eu hannog i gadw at y polisi hwn. I hwyluso hyn, bydd aelodau pwyllgorau clybiau a chymdeithasau'n derbyn hyfforddiant, cyngor a chymorth ar weithredoedd ymarferol a gweithredol y polisi hwn ar ddechrau bob blwyddyn academaidd. Bydd y wybodaeth yn cael ei gynnwys yn yr hyfforddiant a dogfennau gwybodaeth. Bydd clybiau a chymdeithasau sy'n glynu at y polisi hwn yn cael eu gwobrwyo drwy'r system haenau.

11.2 Anfonir cylchlythyrau o UMPC i glybiau a chymdeithasau gan barchu eu dewisiadau iaith a bydd holl fyfyrwyr sydd wedi dewis Cymraeg fel eu hiaith gyntaf yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg yn unig. Bydd myfyrwyr eraill i gyd yn derbyn cyfathrebu dwyieithog.

11.3 Os yw aelod myfyrwyr o glwb neu gymdeithas yn gofyn am dderbyn cyfathrebiad yn y Gymraeg, dylai'r clwb neu gymdeithas geisio eu gorau i ddanfôn negeseuon e-bost a diweddariadau i'r myfyrwyr hyn yn Gymraeg.

11.4 Bydd templedi dwyieithog o ffurflenni yn cael eu darparu i bob cymdeithas, clwb a gwasanaeth dan arweiniad myfyrwyr.

11.5 Bydd darpariaeth gwasanaeth cyfieithu ar gael am ddim i glybiau, cymdeithasau a gwasanaethau a arweinir gan fyfyrwyr ar gais. Bydd hwn yn gweithredu yn unol a'r cytundeb lefel gwasanaeth cynhyrchu.



11.6 Ni fydd cynnwys golygyddol a darnau barn cyfryngau myfyrwyr yn dod o dan y polisi hwn.

## 12. Cyfathrebu Mewnol

12.1 Bydd staff newydd yn cael y cyfle i nodi pa iaith y byddai'n well ganddynt dderbyn eu cyfathrebiad. Bydd y rhestr hon ar gael i unrhyw staff sy'n cyhoeddi cyfathrebiad i holl staff.

12.2 Gall Swyddogion Etholedig gynnal eu gwaith yn yr iaith o'u dewis hwy (Cymraeg neu Saesneg) ond rhaid iddynt ymgymhwyso i ieithoedd arall.

## 13. Arwyddion

13.1 Cynhyrchir ac arddangosir pob arwydd parhaol o fewn eiddo UMPC mewn fformat dwyieithog, ac eithrio enwau brand wedi'u hamddiffyn, e.e brandiau cenedlaethol, a fydd yn ymddangos yn eu hiaith gwreiddiol.

13.2 Bydd arwyddion dros dro yn cael eu cynhyrchu'n a'u harddangos ddwyieithog. Bydd templedi sy'n cynnwys ymadroddion a ddefnyddir yn aml ar gael i staff. Rhaid i holl arwyddion eraill gael eu cyfieithu neu eu cymeradwyo gan yr Adran Farchnata a Chyfathrebu.

## 14. Cyfieithu a Safonau Cyfieithu

14.1 Rhaid fod unrhyw gyfieithiad a ddefnyddir gan UMPC yn cael ei gymeradwyo gan neu'i ddarparu gan Gydlynnydd y Gymraeg, neu gyflenwr a gymeradwywyd gan y tîm Marchnata a Chyfathrebu. Nid yw Google Translate neu unrhyw wasanaethau ar-lein arall yn ffynhonnell dderbyniol o destun Cymraeg ar unrhyw adeg.

14.2 Rhaid i gynnwys iaith Gymraeg sy'n cael ei gyhoeddi gael ei gymeradwyo gan yr Adran Marchnata a Chyfathrebu neu gyflenwr allanol a argymhellwyd gan yr Adran Marchnata a Chyfathrebu.

14.3 Bydd yr adran Marchnata a Chyfathrebu yn gweithio gydag Uned Gwasanaethau Iaith Gymraeg y Brifysgol i greu cysondeb mewn terminoleg drwy greu sylfaen termau, a theilwra termau sylfaenol y Brifysgol. Bydd y termau sylfaenol yn cael eu cymeradwyo gan Grŵp Llywio'r iaith Gymraeg.

14.4 Bydd canllaw arddull iaith Gymraeg yn cael ei gynhyrchu, yn debyg i ganllaw arddull iaith Saesneg yr Undeb - er mwyn sicrhau cysondeb cyfieithiadau.

14.5 Bydd gofyn i adrannau'r Undeb ystyried gofynion dwyieithrwydd drwy eu gwaith, a chaniatáu digon o amser ar gyfer unrhyw gyfieithu.

14.6 Bydd cynlluniau wrth gefn yn absenoldeb cyfieithydd.

## 15. Llais Myfyrwyr a Democratiaeth

15.1 Bydd fersiynau diweddaraf o Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasau'r Undeb, Is-ddeddfau ac Atodiadau i Is-ddeddfau a Llyfr Polisi ar gael yn y Gymraeg. Caiff y dogfennau hyn eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r rhai Saesneg ar wefan yr Undeb.



15.2 Caiff Agendâu, Cofnodion ac unrhyw ddogfennau sy'n gysylltiedig â "chyfarfodydd democrataidd" eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

15.3 Bydd yr holl wybodaeth hyrwyddo a democrataidd sy'n ymwneud â'r etholiadau'n cael eu cyhoeddi'n Gymraeg a Saesneg. Bydd cyflwyniadau llwyfan a Pwynt Pŵer yn nigwyddiad cyhoeddi Canlyniadau Etholiad yn ddwyieithog.

15.4 Gellir cyflwyno cynigion yn Gymraeg neu yn Saesneg mewn cyfarfodydd democrataidd.

15.5 Bydd cymdeithasau ac ymgyrchoedd sy'n cael eu rhedeg gan Swyddogion Etholedig yn cael eu hyrwyddo ac yn hygyrch yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## 16. Cyfarfodydd

### 16.1 Cyfarfodydd Democratig

16.1.1 Mae "Cyfarfodydd democrataidd" yn gyfarfodydd sy'n agored i Aelodau Myfyrwyr. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol; Cyfarfodydd Cyffredinol neu Gyfarfodydd Cyffredinol Eithriadol; Senedd Myfyrwyr a'r Pwyllgor Craffu. At ddibenion y Polisi hwn, bydd sesiynau hustyngau ar gyfer dadleuon Etholiadau a Refferenda hefyd yn cael eu hystyried fel "cyfarfodydd democrataidd".

16.1.2 Darperir cyfieithu ar y pryd yn holl gyfarfodydd democrataidd mewnol ac allanol, oni bai fod sicrwydd pendant nad yw'n angenrheidiol.

### 16.2 Cyfarfodydd Personol

16.2.1 Yn holl gyfarfodydd sy'n ymwneud â lles Aelodau Myfyrwyr, bydd yr Undeb yn ceisio cynnal y cyfarfod drwy gyfrwng iaith y mae'r Aelod yn ei ddewis (Cymraeg neu Saesneg). Mae cyfarfodydd o'r fath yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i gyfarfod â Swyddog Etholedig sy'n ymwneud â lles myfyrwyr neu mewn achosion lle y mae'r Undeb yn cynnal gwrandawriad disgyblu yn erbyn un o'i Aelodau.

### 16.3 Cyfarfodydd Eraill

16.3.1 Bydd Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg yn cael ei gadeirio drwy gyfrwng y Gymraeg. Darperir cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg er budd aelodau di-Gymraeg y Grŵp.

16.3.2 Darperir cyfieithu ar y pryd er budd siaradwyr di-Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r iaith Gymraeg. Gallai hyn gynnwys cyfarfodydd ffurfiol megis y rhai gyda phwyllgor trefnu Eisteddfod Rhyng-golegol neu gyda grŵp o gynrychiolwyr myfyrwyr iaith Gymraeg etholedig.

16.3.3 Gellir gwneud cais ar gyfer cyfieithu ar y pryd â chais rhesymol ar gyfer cyfarfodydd eraill.

## 17. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

17.1 Bydd yr Undeb yn gweithio ar y cyd â chynlluniau iaith y Brifysgol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ac argaeledd rhaglenni iaith Gymraeg i fyfyrwyr.



17.2 Bydd yr Undeb yn dathlu ac yn hyrwyddo diwrnodau o bwysigrwydd ieithyddol.

17.3 Bydd staff gyrfa a staff myfyrwyr yn cael eu hannog i siarad Cymraeg yn ystod oriau gwaith.

17.4 Bydd yr Undeb yn cynhyrchu cynnwys Cymraeg gwreiddiol yn cynnwys cylchlythyr penodol iaith Gymraeg bob semester. Bydd rhain yn cael eu trefnu gan Swyddog y Gymraeg.

17.5 Bydd yr Undeb yn datblygu gwobrau penodol iaith Gymraeg neu'n ffurfio rhan o wobrau o fewn strwythur UMPC.

17.6 Bydd UMPC yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## 18. Hysbysebwr trydydd parti a phartneriaid

18.1 Bydd hysbysebwr trydydd parti, cwmnïau allanol sy'n llogi lleoliadau yn yr adeilad a sefydliadau partner yn cael eu hannog i ddefnyddio deunydd hyrwyddo dwyieithog o fewn adeilad Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, ond ni fydd disgwyl iddynt gydymffurfio â holl bwyntiau yn y polisi hwn.

18.2 Bydd holl denantiaid yn derbyn copi o'r polisi hwn ochr yn ochr â dogfennau ymsefydlu eraill. Byddant yn cael eu hannog i gynhyrchu deunyddiau dwyieithog a chael eu cefnogi i wneud hynny gan UMPC lle bo'n briodol. Ni fydd ffioedd ychwanegol yn codi (gan yr Undeb) ar gyfer hysbysebion iaith Gymraeg os ydynt wedi'u lleoli ochr yn ochr ag ymgyrch trehadwy iaith Saesneg.

18.3 Bydd Undeb y Myfyrwyr yn disgwyl i UCM a UCM Cymru gyflwyno eu hymgyrchoedd a'u deunydd hyrwyddo yn y ddwy iaith, ac ond yn arddangos deunydd dwyieithog o fewn safleoedd Undeb y Myfyrwyr.

18.4 Bydd holl bartneriaid masnachol (hysbysebu, hyrwyddwyr a thenantiaid) yn cael eu hannog i gynhyrchu brandiau yn ddwyieithog a chael eu cefnogi i wneud hynny lle bo'n briodol.

## 19. Adborth a Chwynion

Bydd adborth a chwynion gan fyfyrwyr a rhan-ddeiliaid eraill yn ymwneud â gweithredu'r polisi hwn yn cael ei ddelio â drwy'r Weithdrefn Gwyno (gweler Atodiad A). Bydd y tîm gwasanaeth cwsmer yn cyflwyno adroddiad i bob cyfarfod y Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg yn crynhoi'r cyfathrebu a dderbyniwyd yn y cyfnod hwnnw.

19.2 Dylid cyfeirio adborth a chwynion gan staff a rhan-ddeiliaid mewnol drwy'r strwythur llinell rheoli i'r Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu.


19.3 Dylai diwygiadau a gwelliannau i'r polisi hwn gan aelodau myfyrwyr gael eu cyflwyno i Swyddog y Gymraeg neu aelod o Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg.




# Atodiad

## A. Gweithdrefn Gwynion

### Cardiff University Students' Union Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd



## B. Strwythur Llywodraethu



## C. Strwythur Adrannol Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

